CYNGOR CYMUNED CWM CADNANT.

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd y Plwyf, Llandegfan, Bore Dydd Gwener, 17eg IONAWR 2025 am 11:00yb.

COFNOD:

2783 Yn bresennol roedd:

Y Cynghorwyr Mr Tom Cooke (Cadeirydd), Mr Alun Roberts, Mrs Nia Foulkes, Miss Sian Griffiths, Mr Eurfryn Davies, Mr John Wyn Griffith, Mr Gareth Griffiths, Mr John Griffiths, Mr Michael Willis & Mr J Alun Foulkes (Clerc).

2784 Derbyn unrhyw ymddiheuriadau:

Derbyniwyd ymddiheuriad oddiwrth: Cyng Mr William Roberts.

2785 Croeso gan y Cadeirydd.

Croesawyd yr holl Gynghorwyr oedd yn bresennol i gyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd gan y Cadeirydd. Diolchwyd iddynt am wneud yr ymdrech i fynychu'r cyfarfod brys ac egluro'r rhesymau.

2786 Datgan unrhyw Fuddiant Personol/Rhagfarnol

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol a/neu sy'n rhagfarnu cyn y cyfarfod.

2787 Materion Gardd Cymunedol & Choed Safle Y Neuadd.

Roedd y Clerc eisoes wedi rhannu adroddiad a dyfnbris Cwmni North Wales Fencing (£10,467 + TAW). Yn dilyn trafodaeth hir a chryno, cynnig ac eilio (JG/NWF) gosod y ffens Newydd yn unol a'r dyfnbris a wneud cyfraniad hyd at £150.00 i drigolion Cae'r Ffynnon am y difrod ochr nhw i'r ffin. **MWYAFRIF YN CYTUNO.**

2788 Materion Neuadd y Plwyf.

Cafwyd trafodaeth ar y canlynol.

2788.1 Cytunwyd yn unfrydol i daliad o £1,200 (JG/JWG) i'r Cyng Mrs Nia Foulkes am yr amser a dreuliwyd yn glanhau'r Neuadd dros y 3 blynedd diwethaf. Roedd y Cyng Foulkes wedi gadael yr ystafell tra roedd y mater yn cael ei drafod a'i gytuno.

……..

2788.2 Cytuno adolygu ffioedd llogi y Neuadd yn Mis Mawrth 2025.

2788.3 Nodwyd nad oedd goleuadau allanol yn gweithio – Clerc i gysylltu gyda GD Electrical a gofyn iddynt hefyd edrych ar y ffan echdynnu yn toiledau'r dynion.

2789 Materion Llwybrau Troed.

2789.1 Croesawyd Mr Peter Williams & Mr Michael Stops (Grwp Natur Seiriol) i'r cyfarfod.

2789.2 Cafwyd cadarnhad ganddynt fod eu cais drwy Cronfa Loteri Arian I Bawb wedi bod yn llwyddiannus (odditeu £20,000).

2789.3 Roeddynt wedi paratoi map o'r llwybrau I'w cynnwys yn eu gwaith arfaethedig am y 12 mis nesaf ar gyfer ardal Cwm Cadnant (Cylch Cyttir) er mwyn gwella'r rhwydwaith y lwybrau ac roedd hyn yn cynnwys Gwarchodfa Natur Cyttir. Yn dilyn trafodaeth hir a chryno, cytunwyd i weithio mewn partneriaeth â'r Grŵp a threfnu cyfarfod pellach cyn y Pasg.

2789.4 Nodi Gorchymyn Cau Rhan o Lwybr Cyhoeddus Rhif 13 a chreu llwybr arall yn ei le oherwydd caniatad datblygiad newydd ar dir wrth Gwel y Llan.

2790 Materion Priffyrdd.

Nodwyd y canlynol:

2790.1 Angen sylw problemau dŵr unwaith eto ger Cae Crin a cyflwr y gwyneb a cilfannau ar hyd Lon Filltir – Cyng Sir, Mr Alun Roberts i gysylltu gyda Arolygydd Priffyrdd Ardal o'r Cyngor Sir.

2790.2 Cafwyd adroddiad ar y goeden fawr a ddisgynnodd ger Bryngwyn, Hen Landegfan yn ystod Storm Darragh a achosodd y ffordd i gau dros dro i Fiwmares.

2790.3 Cafwyd adroddiad bod gwaith atgyweirio'r difrod ar Hen Bont Cadnant ar Lôn Pedair Groeslon wedi ei gwblhau.

……

2790.4 Derbyniwyd adroddiad y cysylltwyd â Swyddog Gorfodaeth y Cyngor Sir i gynnal ymweliad safle â'r tir ger Teras Erw Hywel yn dilyn pryderon amgylcheddol lleol.

2790.5 Nodi bydd yr A545 ar gau dros dro ar y 1af & 2ail o Fawrth 2025 oherwydd Hanner Marathon Ynys Môn & 10KM.

2791 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 29ain IONAWR 2025.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorwyr am eu presenoldeb unwaith eto a daeth y cyfarfod i ben am 1:20yp.

Arwyddwo…… Cadeirydd…… Dyddiad.

CWM CADNANT COMMUNITY COUNCIL.
Minutes of the Council Meeting held in the Parish Hall, Llandegfan, Friday Morning, 17th JANUARY 2025 at 11:00am.

MINUTE:

2783 Present were:
Councillors Mr Tom Cooke (Chairman), Mr Alun Roberts, Mrs Nia Foulkes, Miss Sian Griffiths, Mr Eurfryn Davies, Mr John Wyn Griffiths, Mr Gareth Griffiths, Mr John Griffiths, Mr Michael Willis & Mr J Alun Foulkes (Clerk).

2784 To Accept any apologies:
An apology was received from: Cllr Mr William Roberts.

2785 Welcome from the Chairman.
All the Councillors present were welcomed to the first meeting of the new year by the Chairman. They were thanked for making the effort to attend the emergency meeting and he explained the reasons for doing so.

2786 Declaration of any Personal/Prejudicial Interest
No personal and/or prejudicial interest was declared before and/or during the meeting.

2787 Community Garden & Trees surrounding the Hall.
The Clerk had already shared the North Wales Fencing Company's report and quotation (£10,467 + VAT). Following a long and concise discussion, it was proposed and seconded (JG/NWF) to install a new (replacement) palisade fence in accordance with the quotation and make a contribution of up to £150.00 to the residents of Cae'r Ffynnon for the damage on their side of the boundary. **MAJORITY AGREED TO THE PROPOSAL.**

2788 Parish Hall Matters.
There was a discussion on the following.

2788.1 It was unanimously agreed to a payment of £1,200 (JG/JWG) to Cllr Mrs Nia Foulkes for the time spent cleaning the Hall over the last 3 years. Cllr Foulkes was requested to leave the room while the matter was being discussed and agreed.

2788.2 Agree to review the hiring fees of the Hall in March 2025.

2788.3 It was noted that the external lights were not working - Clerk to contact GD Electrical and ask them to carry out any necessary repair work and to also look at the extraction fan in the men's toilets.

2789 Footpath Matters.

2789.1 Mr Peter Williams & Mr Michael Stops (Seiriol Nature Group) were welcomed to the meeting.

2789.2 Confirmation that their application through the Awards for All Lottery Fund had been successful (about £20,000).

2789.3 They had also prepared a map of the paths to be included in their planned work for the next 12 months for the Cwm Cadnant area (Cylch Cyttir) in order to improve the network of paths and this included the Cyttir Nature Reserve. Following a long and concise discussion, it was agreed to work in partnership with the Group and to organize a further meeting before Easter.

2789.4 Noted a County Council Order to Close Part of Public Path No. 13 and create another path in its place following the approval of the new development on land at Gwel y Llan.

2790 Highway Matters.

The following were noted:

2790.1 Water problems that needed attention had surfaced once again near Cae Crin and the condition of the surface and layby along Mile Lane was again giving cause for concern - County Councilor, Mr Alun Roberts to contact the County Council’s Highways Inspector.

2790.2 There was a report on the large tree that fell near Bryngwyn, Hen Landegfan following Storm Darragh which caused the road to Beaumaris to be temporarily closed.

2790.3 There was a report that repair work to the damage on Old Cadnant Bridge on Lôn Pedair Groeslon had been completed.

.....

2790.4 A report was received that the County Council's Enforcement Officer had been contacted to conduct a site visit to the land near Erw Hywel Terrace following local environmental concerns.

2790.5 Noted that the A545 will be temporarily closed on the 1st & 2nd of March 2025 due to the Ynys Môn Half Marathon & 10KM.

2791 Date of Next Meeting: 29th JANUARY 2025.

The Chairman again thanked the Councillors for their attendance and the meeting ended at 1:20pm.

Signed…….Chair……..Date.